



YSGOL I.D. HOOSON

Gorffennaf 16eg, 2018

PWYSIG

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Wrth i ni agosau at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, hoffwn dynnu eich sylw tuag at rhai pethau pwysig cyn i ni gau am wyliau'r haf.

Adroddiadau Blynyddol, canlyniadau profion cenedlaethol rhifedd a llythrennedd, asesiadau athro/awes diwedd cyfnod Sylfaen/Cyfnod allweddol 2, ffigyrau presenoldeb

Cyn diwedd y tymor byddwch yn derbyn adroddiad blynyddol eich plentyn, yn ogystal â chanlyniadau profion darllen a rhifedd cenedlaethol i flynyddoedd 2 i 6, ac asesiadau athro/awes i ddisgyblion blwyddyn 2 a blwyddyn 6. Dwi'n siŵr y gwnewch ei ddarllen yn ofalus gyda'ch plentyn a chael cyfle i drafod y cynnwys gyda'ch plentyn. Os dymunwch gael sgwrs am yr adroddiadau gydag athro/awes eich plentyn, yna mae croeso i chi wneud hyn drwy drefnu amser cyfleus gyda'r athro/awes ddosbarth.

Presenoldeb a Gwyliau

Fel yr hysbysir yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, mae presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol yn allweddol tuag at lwyddiant academaidd eich plentyn. Rydym angen i'ch plentyn fod yn yr ysgol ar gyfer pob diwrnod posib yn ystod y flwyddyn, oni bai fod rheswm dilys am absenoldeb e.e. salwch, apwyntiad meddygol. Wrth i ni agosau at y gwyliau, hoffwn eich annog i feddwl yn ofalus cyn i chi drefnu eich gwyliau gyfer y flwyddyn 18-19, a gwneud pob ymdrech i osgoi cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Bydd angen gwneud cais trwy lythyr os am gymryd eich plentyn o'r ysgol am wyliau neu ymweliad eraill sydd ddim yn gysylltiedig ag addysg eich plentyn. Gweler taflen dyddiadau tymhorau ysgol 18-19.

Gwisg ysgol

Rydym ar drothwy gwyliau'r haf. Hoffwn eich atgoffa o drefniant gwisg ysgol o Fedi 2018 ymlaen. Yn unol â'r polisi gwisg ysgol, bydd y wisg ysgol bresennol yn parhau sef trowsus glas/sgert las, crys polo a chrys chwys glas neu gardigan yr ysgol. **Gofynnir i bob plentyn wisgo esgidiau du i'r ysgol. Ni chaniateir trainers du ac ni chaniateir esgidiau sodlau uchel /high heels. Mae felly digon o amser dros yr haf i chi baratoi ar gyfer trefnu gwisg ysgol ac esgidiau ysgol eich plentyn.** Hefyd mae disgwyl i bob plentyn wisgo gwisg addysg gorfforol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau corfforol, sef **crys polo/ T glas a siorts glas.** Dylid labelu pob dilledyn gyda enw'r plentyn.

Digwyddiadau diweddar - Roedd ein ffair haf ddiweddar yn un lwyddiannus iawn. Llwyddwyd i godi £900 tuag at yr ysgol. Mae teithiau cerdded nodedig diweddar hefyd wedi bod yn llwyddiannus, gyda'r disgyblion a'r staff wedi mwynhau y digwyddiad. Hyd yma rydym wedi llwyddo i gasglu £1500 o'r daith gerdded nodedig, gyda ychydig mwy o arian i ddilyn. Ardderchog wir a diolch i bawb am ei cefnogaeth. Mi fydd yr arian yn mynd tuag at adnoddau i'r disgyblion, gyda ffocws penodol ar offer TGCh.

Holiadur rhieni - Diolch i bawb a gymerodd yr amser i gwblhau yr holiadur diweddar. Roedd yn ddefnyddiol iawn i dderbyn eich adborth chi am yr ysgol. Roedd yr ymatebion a ddebynwyd yn gadarnhaol tuag at waith yr ysgol, a byddwn yn defnyddio y prif ddaraganfyddiadau o'r holiadur fel modd i geisio datblygu a gwella'r ysgol ymhellach. Yn dilyn dadansoddi'r holiaduron, roedd yr adborth yn gadarnhaol. Roedd rhai o'r prif negeseuon yn cynnwys:

- *Mae rhieni/gofalwyr yn fodlon a'r ysgol yn gyffredinol*
- *Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol,*
- *Mae'r plant yn ddiogel yn yr ysgol*
- *Mae'r plant yn mwynhau'r ysgol.*

O ran meysydd i'w hystyried ar gyfer datblygiad pellach, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r elfen gyfathrebu gan gynnwys y defnydd o wefan,

Gwefan - Mae gwefan newydd gan yr ysgol. Gellir cael mynediad iddi drwy <http://ysgolidhooson.cymru>. Nid yw pob rhan o'r wefan yn gwbl derfynol, a byddwn dros amser yn datblygu y wefan ymhellach wrth ychwanegu gwybodaeth a newyddion amrywiol am weithgareddau'r ysgol.

Rhiant Lywodraethwr - Hoffwn longyfarch Mrs Sarah Thomas-Ellis a gafodd ei hethol fel rhain lywodraethwr yn dilyn pleidlais ddiweddar. Bydd Mrs Thomas-Ellis yn parhau felly yn ei rôl am 4 mlynedd arall.

Arian sydd yn ddyledus - **Gofynnwn yn garedig i unrhyw un sydd gan ddyledion i'w talu i'r ysgol e.e. arian cinio a chlwb ar ôl ysgol i wneud hyn cyn diwedd y tymor.** Ni fydd yn bosib cynnig cinio ysgol na lle yn y clwb ar ôl ysgol ym mis Medi hyd nes y bydd unrhyw ddyledion wedi'i talu. Os ydych yn ansicr, yna cysylltwch â swyddfa'r ysgol. Byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad prydlon gyda'r mater hwn.

Yn olaf, hoffwn ddymuno yn dda i'r plant ac i chi fel rhieni a gofalwyr dros wyliau'r haf. Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd yn ein gadael, a phob lwc iddynt ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr ysgol yn cau ar **ddydd Gwener Gorffennaf y 20fed**, ac yn ail agor i'r plant ar **ddydd Mercher, Medi 5ed**. (Bydd Medi'r 3ydd a'r 4ydd yn ddiwrnodiau hyfforddiant i'r athrawon). Edrychwn ymlaen felly at fis Medi, ac at gychwyn blwyddyn ysgol newydd a phrysus arall.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad gyda'r materion uchod.

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones

Pennaeth